**Senedd Cymru: Grŵp Trawsbleidiol – Effaith y Cyfyngiadau ar Gynhyrchion sy'n Uchel Mewn Braster, Siwgr a Halen ar Siopau Bach**

**Dydd Mawrth 13 Rhagfyr 2020, 12:30 – 13:30: Microsoft Teams (Ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** | **Cofnodion** |
|---|---|---|---|
| Edward | Woodall | Cymdeithas Siopau Cyfleustra | EW |
| Daniel | Askew | Cymdeithas Siopau Cyfleustra | DA |
| David | Pickering | Safonau Masnach | DP |
| Neil | Millet | Jos Richardson & Co | NM |
| Robin | Lewis | Aelod o Staff Cymorth Vikki Howells | RL |
| Vince | Malone | Tenby Stores / Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd (NFRN Cymru) | VM |
| Rosina | Robson | Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch | RR |
| Ruth | Buckley-Salmon | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri | RBS |
| Ioan | Bellin | Aelod o Staff Cymorth Rhys ab Owen AS | IB |
| Jim | Winship | The British Sandwich & Food to Go Association | JW |

**YMDDIHEURIADAU:**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Peredur | Owen Griffiths | AS dros Ddwyrain De Cymru |
| Vikki | Howells | AS dros Gwm Cynon |
| Russell | George | AS dros Sir Drefaldwyn |
| Llyr | Gruffydd | AS dros Ogledd Cymru |

1. **Cyflwyniad**

Croesawodd EW y rhai a oedd yn bresennol, gan hysbysu'r aelodau ynghylch y newidiadau a wnaed i agenda a fformat y digwyddiad yn sgil y ffaith nad oedd VH yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Gofynnodd EW i RL am fanylion yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law, ac aeth RL ati i restru'r ymddiheuriadau uchod.

2. **Effaith y Cyfyngiadau ar Gynhyrchion sy'n Uchel Mewn Braster, Siwgr a Halen (HFSS)** ar Siopau Bach

Drwy gyfrwng cyflwyniad, rhannodd EW wybodaeth â'r aelodau ynghylch y cyfyngiadau ar gynhyrchion HFSS sy'n destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, gan amlinellu'r gwahaniaethau allweddol o gymharu â'r rheoliadau HFSS sydd mewn grym yn Lloegr.

Siaradodd EW am sut y gallai cynigion Llywodraeth Cymru effeithio ar siopau bach yn sgil materion yn ymwneud â dehongli'r rheoliadau, a'r costau y bydd gofyn i fusnesau eu hysgwyddo er mwyn ailgynllunio ac ail-gyflunio eu siopau. Daeth EW â'r cyflwyniad i ben drwy amlinellu argymhellion ac ystyriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

### 3. Panel Manwerthwyr

Dechreuodd EW y sesiwn gyda'r panel manwerthwyr drwy gyflwyno NM a DP i'r aelodau.

Gofynnodd EW i NM am yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ar leoliadau cynhyrchion HFSS. Tynnodd NM sylw at y diffyg eglurder ynghylch dehongli'r cyfyngiadau ar leoliadau cynhyrchion fel mater allweddol, ynghyd â'r amser sylweddol sy'n cael ei dreulio wrth baratoi ar gyfer y cyfyngiadau hynny.

Trodd EW at DP, gan ofyn iddo sôn am brofiadau Safonau Masnach o safbwynt gorfodi'r rheoliadau yn Lloegr.  Amlinellodd DP rai o'r heriau allweddol y mae Safonau Masnach wedi'u hwynebu wrth orfodi'r rheoliadau, gan gynnwys diffyg cyfathrebu clir ynghylch y polisi gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r busnesau y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt, a diffyg eglurder ynghylch y diffiniadau o leoliadau ac ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n seiliedig ar faint.

Trodd VM at NM, gan ofyn iddo sôn am ei ganfyddiadau ynghylch y broses o baratoi ar gyfer y rheoliadau HFSS. Soniodd NM am faterion sy'n ymwneud â negeseuon anghyson ynghylch gweithredu'r polisi.

Gofynnodd EW i DP ac NM am eu geiriau olaf o gyngor i Lywodraeth Cymru. Cytunodd y ddau ohonynt fod angen cyfathrebu am y polisi mewn ffordd glir, a bod angen aliniad cyson â'r rheoliadau yn Lloegr.

### 4. Diwedd

Rhoddodd EW grynodeb o'r cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.